

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Archwilio

Ymchwiliad i'r Gwasanaethau Ambiwlans
yng Nghymru

Gorffennaf 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopiau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Pwyllgor Archwilio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8617
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Audit.Comm@wales.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Archwilio

Ymchwiliad i'r Gwasanaethau Ambiwlans
yng Nghymru

Gorffennaf 2009



Ymchwiliad i'r Gwasanaethau Ambiwylans yng Nghymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	4
Rhagymadrodd	5
Y safon wyth munud	8
Cerbydau Ymateb Cyflym	9
Cleifion yn cael eu cludo gan wasanaethau brys eraill	11
Targedau deallus	12
Uwch Ymarferwyr Parafeddygol	13
Trosglwyddiadau	14
Terfynellau data	15
Targedau trosglwyddo	17
Gwneud y defnydd gorau o adnoddau	18
Swyddogion ambiwlans	19
Ailgyflenwi	21
Rhannu'r arferion gorau	21
Ymdrin ag amrywiadau daearyddol	22
Lefelau staffio mewn adrannau achosion brys	23
Profiad y staff	24
Sefyllfa ariannol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	25
Ad-drefnu'r GIG	26

Atodiadau

Cofnod Trafodion y Pwyllgor Archwilio 21 Ionawr 2009	Atodiad 1
Cofnod Trafodion y Pwyllgor Archwilio 11 Mawrth 2009	Atodiad 2
Cofnod Trafodion y Pwyllgor Archwilio 30 Ebrill 2009	Atodiad 3
Cofnod Trafodion y Pwyllgor Archwilio 4 Mehefin 2009	Atodiad 4
Cofnod Trafodion y Pwyllgor Archwilio 18 Mehefin 2009	Atodiad 5
AC(3) 08-09 (td1) Unsain – Gwasanaethau Ambiwllans Cymru	Atodiad 6
AC(3) 08-09 (td2) Cymdeithas Parafeddygon Prydain – Gwasanaethau Ambiwllans Cymru	Atodiad 7

Aelodau'r Pwyllgor



Jonathan Morgan
Cadeirydd
Gogledd Caerdydd
Plaid Geidwadol Cymru



Lorraine Barrett
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



Mike German
Dwyrain De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol
Cymru



Janice Gregory
Ogwr
Llafur



Lesley Griffiths
Wrecsam
Llafur



Irene James
Islwyn
Llafur



Bethan Jenkins
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



Huw Lewis
Merthyr Tudful a Rhymni
Llafur



Nick Ramsay
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



Janet Ryder
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

Rhagair y Cadeirydd

Ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bleidleisio o blaid cynnal ymchwiliad i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ym mis Gorffennaf 2006, bu gan y Pwyllgor Archwilio ddiddordeb mawr ym mherfformiad y gwasanaeth ambiwlans. Ond er gwaethaf dau adroddiad gan y Pwyllgor a oedd yn nodi bod yr Ymddiriedolaeth yn tangyflawni, nid yw'r Pwyllgor yn credu bod unrhyw gynnydd yn cael ei wneud ac mae'n parhau i fod yn anfodlon â'r ddarpariaeth ar gyfer gofal heb ei drefnu.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod drwy newidiadau mawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae hynny wedi helpu ychydig i foderneiddio'r ddarpariaeth gofal cyn-ysbyty yng Nghymru, ond mae angen gwella llawer eto.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r targedau a bennwyd i sicrhau ymateb prydlon i alwadau 999 brys yn cael eu cyrraedd yn gyson ac, ar adegau, nid yw'r perfformiad yn cyrraedd y safon ofynnol o bell ffordd. Mae'r Pwyllgor yn pryderu hefyd bod ymdrechion yr Ymddiriedolaeth i wneud arbedion effeithlonrwydd yn cael effaith andwyol ar berfformiad. Ceir pryderon eraill hefyd sy'n ymwneud â'r diwylliant o fwlio yn yr Ymddiriedolaeth ac sy'n tanseilio gwaith da'r staff. Mae hyn yn fater y dylid ei ystyried cyn dim arall.

Ond nid yw'r gwasanaeth Ambiwylans yn gweithio ar ei ben ei hun. Gall oedi hir wrth drosglwyddo cleifion i unedau damweiniau ac achosion brys olygu bod parafeddygon yn ciwio mewn coridorau gyda'u cleifion ac nad ydynt ar gael i ateb galwadau brys 999. I'r claf sydd yn yr adran damweiniau ac achosion brys, mae aros am hir yn annerbyniol. I'r claf yn y gymuned, sy'n aros i rywun ymateb i alwad 999, gallai'r sefyllfa fod yn farwol. Mae'n hollbwysig bod y GIG yng Nghymru yn gweithio i wella'r broses o dderbyn cleifion, drwy gydweithio a chreu systemau deallus sydd â'r capasiti a'r cadernid i alluogi staff i ddarparu'r gofal gorau posibl.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r gofal cyn-ysbyty a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a'r broses o drosglwyddo gofal y claf o ddwylo'r parafeddygon i staff yr ysbyty. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi gwneud argymhellion o ran yr oedi sy'n digwydd pan gaiff cleifion eu rhyddhau o'r ysbyty, a bydd yn archwilio agweddau eraill ar lwybr gofal y claf mewn adroddiadau yn y dyfodol. Y gobaith yw y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn manteisio ar y cyfle a geir drwy ad-drefnu'r GIG er mwyn moderneiddio'r modd y darperir gofal drwy gydol y gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried ad-drefnu fel ateb a rhaid dechrau gweithio ar wella perfformiad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwylans Cymru ar unwaith.

Hoffwn ddiolch i'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn. Roedd angerdd ac ymrwymiad yr unigolion hynny yn amlwg drwy'r amser ac mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iddynt am eu hamser a'u hymdrechion.

**Jonathan Morgan,
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio**

Rhagymadrodd

1. Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yw'r corff rheng flaen sy'n darparu gofal heb ei drefnu, cyn mynd i'r ysbyty, yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth hwn i Gymru gyfan yn ymateb i alwadau 999 brys er mwyn achub bywydau a darparu gofal brys i gleifion. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo ymroddiad a gwaith caled holl staff y gwasanaeth ambiwlans sy'n ymdrechu bob dydd i sicrhau bod y cleifion y maent yn eu gweld yn cael y gofal y mae ei angen arnynt.
2. Fodd bynnag, mae pryderon ynglŷn ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru wedi bodoli ers tro. Cafwyd cyhuddiadau o fwlio a morâl gwael law yn llaw â pherfformiad gwael yn erbyn targedau'r ymddiriedolaeth. Gyda'r gwasanaeth eisoes o dan straen, ar adegau o bwysau neilltuoel bu bron iddo fethu, gydag adroddiadau am ambiwlansys yn ciwio y tu allan i adrannau achosion brys a chleifion yn aros am gyfnodau annerbyniol o hir i gael ymateb brys.
3. Ym mis Gorffennaf 2006, pleidleisiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o blaid ymchwiliad i wasanaethau ambiwlans Cymru, i gael ei arwain gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei ymchwiliad ym mis Rhagfyr 2006. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad fod problemau difrifol, a oedd wedi bodoli ers amser hir, ledled Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Ym mis Mawrth 2007, cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio blaenorol adroddiad ar ei ymchwiliad ei hun i'r problemau.
4. Ym mis Mehefin 2008, cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar ei adolygiad dilynol i Wasanaethau Ambiwylans Cymru. Canfu'r adolygiad hwnnw fod rhai problemau anodd yn parhau, er bod tystiolaeth o welliannau cadarnhaol yn yr Ymddiriedolaeth er mis Rhagfyr 2006. Barnai'r Swyddfa Archwilio fod y problemau hyn yn nodweddiadol o'r broses drawsnewid. Adlewyrchai adroddiad y Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2008 y farn hon gan gydnabod, er bod angen gwneud cynnydd cyflym a chyson, y byddai'n cymryd amser i ddelio â rhai o'r sialensiau cyfundrefnol a systemig sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth.
5. Ym mis Rhagfyr 2008, ymatebodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio. Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio yr ymateb ym mis Ionawr 2009 a cheisiodd gyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.¹ Roedd y Pwyllgor yn bryderus nad oedd cynnydd yn cael ei wneud yn ddigon cyflym o ran y materion y tynnwyd sylw atynt yn ei adroddiadau cynharach. Penderfynodd geisio tystiolaeth bellach gan Paul Williams, Pennaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Cyfrifyddu yn Llywodraeth Cymru, ac Alan Murray, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru.
6. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad, 'Gwasanaethau Ambiwylans yng Nghymru - gwybodaeth bellach i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru' cyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 11

¹ AC(3)-01-09 (t.2), (t.3)

Mawrth 2009, pryd y rhoddodd Paul Williams ac Alan Murray dystiolaeth i'r Pwyllgor.

7. Ar 23 Ebrill, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad, 'Gofal Heb ei Drefnu: Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai'.
8. Yn sgil ystyried yr adroddiad ar drosglwyddo cleifion², lansiodd y Pwyllgor Archwilio ymchwiliad i'r gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru er mwyn archwilio'r materion ehangach sy'n effeithio ar berfformiad yr ymddiriedolaeth.
9. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan:

16 Mawrth 2009

- Alan Murray, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
- Tim Woodhead, Pennaeth Cyllid, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
- Paul Williams, Pennaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Simon Dean, Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau a Rheoli Perfformiad, Llywodraeth Cynulliad Cymru

4 Mehefin 2009

- Dave Galligan, Pennaeth Iechyd, Unsain Cymru
- Tina Donnelly, Cyfarwyddwr, Coleg Brenhinol y Nyrsys
- Andrew Evans, Swyddog Proffesiynol, Coleg Brenhinol y Nyrsys
- Yr Athro Malcolm Woollard, Cadeirydd Coleg y Parafeddygon

18 Mehefin 2008

- Jon Falcus, Rheolwr Cyffredinol Cyfarwyddiaeth, Ysbyty Wrecsam Maelor
- Judith Rees, Dirprwy Reolwr Cyffredinol Cyfarwyddiaeth, Ysbyty Wrecsam Maelor
- Meredith Gardner, Rheolwr Cyfarwyddiaeth, Ysbyty Athrofaol Cymru
- Jennie Palmer, Uwch Nyrs Arweinydd Tîm, Yr Uned Achosion Brys, Ysbyty Athrofaol Cymru
- Alan Murray, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
- Tim Woodhead, Cyfarwyddwr Cyllid, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

² AC(3)-06-09 (t.2)

- Paul Williams, Pennaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Simon Dean, Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau a Rheoli Perfformiad, Llywodraeth Cynulliad Cymru

10. Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig hefyd gan yr Athro Malcolm Woollard a Dave Galligan.

Y safon wyth munud

11. Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru darged i ymateb i alwadau categori A lle mae bywyd yn y fantol o fewn wyth munud o leiaf 65 y cant o'r amser. Rhwng mis Mawrth 2005 a mis Ebrill 2007, cyrhaeddwyd y targed wyth munud 60 y cant o'r amser.
12. Roedd adroddiadau cynharach ar yr ymddiriedolaeth ambiwlans wedi dangos tuedd tuag at welliannau perfformiad yn erbyn y safon wyth munud. Cododd y ffigur perfformiad blynyddol drwyddo draw o 55.8 y cant yn 2006/07 i 62.3 y cant yn 2007/08.³
13. Fodd bynnag, erbyn mis Rhagfyr 2008 roedd y perfformiad wedi gostwng i ddim ond 47.6 y cant.⁴ Ym mis Mawrth, dywedodd Alan Murray wrth y Pwyllgor fod y gostyngiad brawychus hwn i'w briodoli'n rhannol i ostyngiad yn nifer y staff rheng flaen er mwyn gwneud yr arbedion effeithlonrwydd gofynnol o £17 miliwn y flwyddyn.⁵ Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor fod y gostyngiad mewn perfformiad i'w briodoli'n rhannol i gynnydd o 90 y cant yn yr oriau ambiwlans a gâi eu colli oherwydd oedi cyn trosglwyddo cleifion yn adrannau achosion brys ysbytai ar y pryd.⁶
14. Nododd y Pwyllgor â phryder y cynnydd yn yr oriau a gâi eu colli oherwydd oedi cyn trosglwyddo cleifion mewn adrannau achosion brys. Mae gwir angen gostwng nifer yr oriau a dreulir gan gleifion a chriwiau yn disgwyl i gleifion gael eu trosglwyddo i staff ysbyty. Tra mae criwiau ambiwlans yn cael eu cadw'n disgwyl mewn adrannau achosion brys, nid ydynt ar gael i ymateb i alwadau 999 eraill. Trafodir y materion sy'n gysylltiedig ag oedi o'r fath yn fanwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
15. Mae'r Pwyllgor yn deall yr angen i'r gwasanaeth ambiwlans wneud arbedion effeithlonrwydd ac mae'n cymeradwyo unrhyw gorff cyhoeddus sy'n ymdrechu i sicrhau gwell gwerth am arian i'r trethdalwr. Fodd bynnag, mae nifer y swyddi sydd heb eu llenwi ar gyfer staff meddygol brys yn amlwg wedi cyfrannu at safonau perfformiad is gan y gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn ac mae'n debygol ei fod wedi gwneud niwed pellach i forâl staff yr ymddiriedolaeth ambiwlans, a hwnnw eisoes yn isel.
16. Ar 18 Mehefin, dywedodd Alan Murray wrth y Pwyllgor fod y lefelau staff yn y de-ddwyrain, lle bu diffyg arbennig, wedi gwella bellach. Dywedodd hefyd fod yr ymddiriedolaeth yn hyfforddi *nifer anarferol o uchel o bobl ar hyn o bryd, ar gyrsiau i Dechnegwyr Meddygol Brys a chyrsiau Parafeddygol*. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor hefyd fod

³ Swyddfa Archwilio Cymru, *Adolygiad Dilynol - Gwasanaethau Ambiwylans yng Nghymru*, Mehefin 2008, paragraff 1.4

⁴ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gwasanaethau Ambiwylans yng Nghymru – gwybodaeth bellach i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Mawrth 2009, paragraff 1.2

⁵ Cofnod y Trafodion AC(3)-04-09 [15]

⁶ Cofnod y Trafodion AC(3)-04-09 [16]

cyllid wedi cael ei sefydlu erbyn hyn i recriwtio a hyfforddi staff.⁷
Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd hwn.

17. Yn y cyfarfod ar 11 Mawrth, dywedodd Paul Williams wrth y Pwyllgor fod y cyfnod estynedig o dywydd oer a chyfnod y Nadolig wedi ychwanegu at yr anawsterau a wynebwyd gan y gwasanaethau ambiwlans ym mis Rhagfyr 2008, wrth i nifer y cleifion gynyddu ac i'r adrannau ddechrau arafu ar gyfer y gwyliau⁸.
18. Mae'r Pwyllgor yn ei chael hi'n anodd derbyn nad oes modd i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol drwyddo draw ragweld a rheoli effeithiau tymhorol ar berfformiad yn well. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod cynlluniau cadarn wedi cael eu sefydlu ym mhob ymddiriedolaeth GIG i sicrhau bod amrywiadau tymhorol rhagweladwy yn y cyflenwad a'r galw yn cael eu rheoli'n well dros fisoedd y gaeaf 2009/10.**
19. Erbyn mis Ionawr 2009, roedd y perfformiad wedi cynyddu'n sylweddol i 57.8 y cant ac, ar 18 Mehefin, dywedodd Alan Murray wrth y Pwyllgor fod y gwasanaeth ambiwlans, er mis Mawrth 2009, wedi cyrraedd y targed o 65 y cant ar gyfer ymatebion o fewn wyth munud yn gyson.⁹ Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwelliant hwn mewn perfformiad yn erbyn y targed tyngedfennol hwn ac mae'n gobeithio na fydd y perfformiad yn disgyn islaw'r lefel hon ond y caiff ei wella dros y misoedd i ddod mewn ffordd fwy cyson.
20. Ochr yn ochr â lefelau staffio priodol, mae'n hanfodol fod y patrymau sifftiau yn cyfateb i'r galw. Yn adroddiad 2006 yr Archwilydd Cyffredinol y nodwyd rotâu gyntaf fel blaenoriaeth wella¹⁰. Ym mis Mehefin 2008, dywedai adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y bu problemau neilltuol yng Nghaerdydd lle *mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael mwy o broblemau'n newid y rhestrau gwaith yn unol â'i dadansoddiad o'r galw*¹¹. **Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr adolygiad o rotâu staff yn ne-ddwyrain Cymru yn dal o dan ystyriaeth. Mae'n nodi penderfyniad Alan Murray i ddisgwyl am ganlyniad yr adolygiad effeithlonrwydd cyn penderfynu'n derfynol ar rotâu ond byddai'n ei annog i ddod â'r mater hwn i ben cyn gynted â phosibl.**

Cerbydau Ymateb Cyflym

21. Cerbydau ymateb brys ac un aelod staff ynddynt yw Cerbydau Ymateb Brys (RRVs) a fwriedir i ddarparu ymateb cyflym i alwadau 999 brys. Mae'r cyfarpar mewn RRVs i alluogi eu gyrwyr

⁷ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [162-164]

⁸ Cofnod y Trafodion AC(3)-04-09 [21]

⁹ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [167]

¹⁰ Swyddfa Archwilio Cymru *Gwasanaethau Ambiwllans yng Nghymru*, Rhagfyr 2006, t.162

¹¹ Swyddfa Archwilio Cymru *Adolygiad Dilynol - Gwasanaethau Ambiwllans yng Nghymru*, Mehefin 2008, paragraff 2.8

parafeddygol i ddarparu gofal brys i gleifion. Ni allant gludo cleifion i'r ysbyty.

22. Pan fydd RRVs yn ymateb i alwad frys, cânt eu dilyn, pan fydd raid, gan ambiwlans a dau aelod staff ynddo a fyddai'n gallu cludo cleifion i'r ysbyty. Yr amseroedd ymateb targed i'r uned â dau aelod staff sy'n dilyn yr RRV yw y dylai gyrraedd o fewn 14, 18 neu 21 munud, yn dibynnu ar ba un a yw'r ardal yn drefol, yn wledig ynteu'n brin ei phoblogaeth.
23. Bu digwyddiadau lle mae ambiwlans a dau aelod staff ynddo wedi cymryd cryn lawer yn hwy na'r amser targed i gyrraedd y fan a'r lle i gynorthwyo'r parafeddyg RRV a galluogi'r claf i gael ei gludo i'r ysbyty.
24. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd yr Athro Woollard, *Mae'r Coleg yn hynod o bryderus ynglŷn â'r risg glinigol i gleifion y mae angen cludiant ar frys arnynt yn dilyn rheolaeth estynedig yn y fan a'r lle gan Gerbydau Ymateb Cyflym (RRVs) ac ynglŷn â'r pwysau ar barafeddygon RRV a'r risg seicolegol iddynt pan fydd oedi cyn y ceir cludiant ambiwlans.*¹²
25. Yn ystod ei dystiolaeth lafar, dadleuodd yr Athro Woollard fod *cymhelliad gwrthnysig yn y targedau perfformiad*¹³ sy'n gallu golygu, unwaith y bydd RRV wedi cyrraedd y lleoliad, fod ambiwlansys dilynol yn cael eu harallgyfeirio i rywle arall er mwyn cyrraedd y targed wyth munud i alwadau 999 eraill. Bydd hyn yn anochel yn arwain at oedi hirach i'r claf sy'n disgwyl i gael ei gludo i'r ysbyty ac oedi i'r parafeddyg RRV y mae gofyn iddo reoli'r cyflwr iechyd am gyfnod estynedig yn y fan a'r lle.
26. Cytunai Alun Murray fod oedi cyn i ambiwlans ymateb yn golygu risg glinigol i gleifion y mae angen iddynt gyrraedd yr ysbyty mor gyflym â phosibl. Cytunai hefyd fod risg seicolegol i barafeddygon RRV y mae gofyn iddynt reoli'r claf am gyfnod estynedig yn y fan a'r lle. Er mwyn dileu'r risgiau hynny, rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y gwasanaeth ambiwlans wedi gwella ei berfformiad yn y maes hwn a'i fod bellach yn cyrraedd y targed o 14, 18 neu 21 munud 92 y cant o'r amser¹⁴.
27. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod y perfformiad yn y maes hwn wedi gwella ond mae'n nodi â phryder sylwadau'r Athro Woollards ynglŷn â'r hyn y mae ef yn ei weld fel 'cymhelliad gwrthnysig yn y targedau perfformiad.' Wrth osod targedau perfformiad, mae'r Gweinidog wedi ei gwneud yn glir fod targedau'n bodoli er mwyn gwella'r gofal i gleifion. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r sicrwydd a roddwyd gan Alun Murray fod Gwasanaeth Ambiwllans Cymru yn rhoi'r *un faint o bwyslais ar gael ambiwlansys dilynol i'r lleoliad o fewn y safonau 14, 18, a 21 munud*¹⁵. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu gwybodaeth ddiweddar yn manylu**

¹² AC(3) 08-09 (td2) Coleg y Parafeddygon: Gwasanaethau Ambiwllans yng Nghymru, paragraff 11

¹³ Cofnod y Trafodion, AC(3)-08-09 [39]

¹⁴ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [149-153]

¹⁵ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [153]

ar amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans. Dylai hyn gynnwys ffigurau am gyfnod y Nadolig sydd wedi bod yn broblemus yn y gorffennol a dylai'r wybodaeth gael ei darparu erbyn dechrau mis Chwefror 2010.

Cleifion yn cael eu cludo gan wasanaethau brys eraill

28. Roedd y Pwyllgor yn bryderus y bu sawl achos lle'r oedd gwasanaethau brys eraill wedi cludo cleifion i'r ysbyty. Pan nad oedd ambiwlans ar gael y cafwyd digwyddiadau o'r fath, ac fel arfer roedd hynny'n digwydd yr un pryd â chyfnodau o oedi hir wrth drosglwyddo cleifion mewn adrannau achosion brys.
29. O fis Hydref hyd at fis Rhagfyr 2008, adroddodd heddlu De Cymru a Gwent am 89 o ddigwyddiadau lle'r oeddent wedi cludo cleifion i'r ysbyty; cyfartaledd o 30 digwyddiad y mis.¹⁶ Dywedodd Paul Williams wrth y Pwyllgor ym mis Mehefin fod y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys wedi nodi 59 o ddigwyddiadau ym mis Ionawr 2009 a 65 ym mis Chwefror 2009 lle cafodd cleifion eu cludo i'r ysbyty gan wasanaethau brys eraill¹⁷. Adroddwyd am 23 o ddigwyddiadau o'r fath i'r grŵp ym mis Mawrth 2009.¹⁸
30. Ym mis Ionawr, cyfarwyddodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru i sefydlu tasglu i ddelio â'r mater hwn.¹⁹
31. Dywedodd Alun Murray wrth y Pwyllgor y cytunwyd ar brosesau ffurfiol ac anffurfiol i reoli perfformiad yn y maes hwn gyda'r pedwar gwasanaeth brys yn ardal broblemus de-ddwyrain Cymru.²⁰ Dywedodd hefyd fod *cynnydd sylweddol* wedi cael ei wneud ac mai dim ond 4 digwyddiad yr adroddwyd amdanynt rhwng 1 a 18 Mehefin.²¹
32. Ni fyddai'r Pwyllgor yn disgwyl i'r heddlu na'r gwasanaeth tân ymgymryd â gofal meddygol dros gleifion yn fwy nag y byddai'n disgwyl i barafeddygon ddiffodd tân neu arestio troseddwyr. Mae'n nodi ymdrechion y gwasanaeth ambiwlans i sicrhau cyn lleied â phosibl o ddigwyddiadau o'r math hwn ond mae serch hynny'n pryderu bod Alan Murray wedi amodi rhai o'r ffigurau. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod rhai digwyddiadau yn *fwy difrifol nag eraill* er enghraifft, pan oedd gwasanaeth brys arall wedi gorfod camu i mewn gan fod *ystafell reoli'r gwasanaeth ambiwlans yn cymryd gormod o amser i ateb y ffôn*.²² Ni waeth beth yw'r rheswm, mae cael

¹⁶ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gofal Heb ei Drefnu: Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai*, Ebrill 2009, paragraff 1.21

¹⁷ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [244]

¹⁸ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gofal Heb ei Drefnu: Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai*, Ebrill 2009, paragraff 1.21

¹⁹ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [244]

²⁰ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [246-249]

²¹ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [245]

²² Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [246]

darpariaeth gyflenwi gan wasanaethau brys eraill yn gwneud drwg i enw da Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ac yn tansilio ffydd y cyhoedd yn narpariaeth gofal brys Cymru. Dylid gofalu bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu dileu yn gyfan gwbl. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro effeithiolrwydd y prosesau rheoli perfformiad ffurfiol ac anffurfiol newydd yn fanwl i sicrhau bod nifer y digwyddiadau yr adroddir amdanynt yn cael ei ostwng yn gyflym a chyson.**

Targedau deallus

33. Mae'r Pwyllgor wedi clywed gan nifer o dystion nad yw'r targedau a ddefnyddir i fesur amseroedd ymateb a throsglwyddo'r gwasanaeth ambiwlans yn flaenoriaeth ym meddyliau staff clinigol wrth iddynt ddelio â chleifion.
34. Dywedodd Jennie Palmer wrth y Pwyllgor, *Rhaid i'r cleifion fod wrth galon pob siwrnai. Mewn rhai ffyrdd, mae'r targed 15 munud i ambiwlansys wedi tynnu'r sylw oddi wrth y claf.*²³
35. Dywedodd Judith Rees wrth y Pwyllgor, *Rydym yn tueddu i beidio â siarad am y targedau, ond am y materion diogelwch ar y llawr a'r hyn sydd orau i'r claf – bydd y targedau'n gofalu am eu hunain os gwnawn ni hynny'n iawn.*²⁴ *Ychwanegodd, Y gofal y maent yn ei roi i gleifion a beth sy'n digwydd i'r cleifion hynny sydd bwysicaf i'r staff. Nid ydynt yn cael eu gyrru gan y targed yn yr ystyr hwnnw; ni fyddant yn gweld cleifion yn ôl pwy sydd wedi bod yn aros hwyaf ac a allai felly fethu targed, ond yn ôl pwy sy'n fwyaf sâl.*²⁵
36. Dywedodd yr Athro Woollard wrth y Pwyllgor, *Er fy mod yn credu bod targedau perfformiad amseroedd aros yn bwysig oherwydd fel arall ni fyddai gennych unrhyw gyfyngiadau ar y ddarpariaeth gwasanaeth, y peth arall i'w ddweud yw bod gormod o sylw'n cael ei roi iddynt fel mesur o effeithiolrwydd clinigol. Mae'n sicr yn wir i ddweud, os cyrhaeddwn ni glaf o fewn saith munud a 59 eiliad a'i fod yn marw, mae hynny'n llwyddiant a chaiff ei gyfrif yn llwyddiant gan inni gyrraedd yr unig darged perfformiad mesuradwy, ond os cymerwn ni wyth munud ac 1 eiliad a bod claf sydd ag ataliad ar y galon yn cael ei adfywio'n llwyddiannus a'i fod yn mynd adref i fyw bywyd normal, caiff hynny ei ystyried yn fethiant. Yn amlwg, mae hynny'n wrthun.*²⁶
37. Bwriadwyd y targed wyth munud a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r gofal i gleifion. Fodd bynnag, mae system sy'n barnu bod canlyniad clinigol llwyddiannus yn sgil ymateb sy'n torri'r targed wyth munud yn fethiant a chanlyniad clinigol aflwyddiannus yn sgil ymateb o fewn wyth munud yn llwyddiant yn ymddangos yn wrthnysig. Yn yr un modd, byddai rhoi blaenoriaeth i

²³ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [13]

²⁴ Cofnod y Trafodion AC93)-09-09 [15]

²⁵ Cofnod y Trafodion AC93)-09-09 [22-23]

²⁶ Cofnod y Trafodion AC(3)-08-09 [40]

drosglwyddo claf sy'n agos at dorri targed mewn cyferbyniad ag un sydd ag angen clinigol mwy yn ddisynnwyr, a chydabod hynny sydd wedi peri i staff clinigol 'dueddu i beidio â siarad am y targedau'. Er bod targedau yn arf rheoli perfformiad angenrheidiol, rhaid iddynt fod yn ddigon deallus i gydnabod bod rhaid ystyried effeithlonrwydd y system drwyddi draw er mwyn gwella perfformiad.

38. Dywedodd Dave Galligan wrth y Pwyllgor, *Mae peth gwaith yn cael ei wneud yn Lloegr ar hyn o bryd, a chredaf fod rhywfaint yn cael ei wneud ledled y DU, i geisio llunio mesur mwy ansoddol, yn hytrach nag un sy'n dibynnu ar amser yn unig.*²⁷
39. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn asesu'r astudiaethau sy'n cael eu cynnal i dargedau ansoddol a'i bod yn ystyried newid y targedau meintiol sydd wedi'u sefydlu ar hyn o bryd, yn dibynnu ar ganlyniadau'r astudiaethau hynny.**

Uwch Ymarferwyr Parafeddygol

40. Yn 2002, cynhaliwyd cynllun peilot uwch ymarferwyr parafeddygol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Darparodd y cynllun peilot, a gynhaliwyd dros ddwy flynedd, arian i 5 parafeddyg gael eu hyfforddi ar y rhaglen Ymarferwyr Gofal mewn Argyfwng yn ysbyty Prifysgol Cymru²⁸. Lluniwyd yr hyfforddiant i roi mwy o hyblygrwydd o fewn gofal cyn mynd i'r ysbyty drwy ganiatáu i gleifion brys gael eu hasesu'n gynnar a chynnig llwybrau gofal amgen lle mae hynny'n addas. Newidiodd y cynllun llwybr y claf ar gyfer 60 y cant o'r cleifion a welwyd gan barafeddygon arbenigol.
41. Amcangyfrifir bod y cynllun peilot wedi costio £259,000 a nododd yr achos busnes a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ym mis Medi 2004 bod y model gofal newydd yn lleihau'r pwysau ar adnoddau argyfwng ambiwlansys yn sylweddol, tra'n cyfrannu i raddau helaeth at leihau nifer y cleifion a fynychodd adrannau damweiniau ac achosion brys yn ddianghenraid²⁹. Gostyngodd y cynllun peilot nifer y cleifion sy'n cael eu hebrwng i'r ysbyty 46 y cant, a oedd yn golygu bod yr ambiwlansys ar gael i ddelio â galwadau brys eraill a lleddfwyd y pwysau o ran ysbytai yn cael eu llenwi i'r eithaf. Mynychodd 14 y cant arall o gleifion ysbyty gan ddefnyddio dull o deithio ar wahân i ambiwlans brys.
42. Fodd bynnag, ni chynhaliodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru na Chomisiwn Iechyd Cymru adolygiad ffurfiol o'r broses³⁰. **Cred y Pwyllgor ei bod yn annerbyniol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn neilltuo swm mor sylweddol o arian i'r cynllun heb gynnal adolygiad ffurfiol o'r canlyniadau a gafwyd**

²⁷ Cofnod y Trafodion AC(03)-08-09 [117]

²⁸ Nodyn gan Paul Williams ar y Cynllun Ymarferwyr Parafeddygol Uwch paragraff 4

²⁹ Nodyn gan Paul Williams ar y Cynllun Ymarferwyr Parafeddygol Uwch paragraff 10

³⁰ Nodyn gan Paul Williams ar y Cynllun Ymarferwyr Parafeddygol Uwch paragraff 7

ac mae'n argymhell y dylid cynnal adolygiad llawn o gynlluniau peilot yn y dyfodol fel un o'r amodau ariannu.

43. Er na chafwyd adolygiad ffurfiol, cefnogodd Llywodraeth Cynulliad Cymru barhad y cynllun ar sail y dystiolaeth a gafwyd yn achos busnes Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn 2004.³¹ Fodd bynnag, ni allodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru na Chomisiwn Iechyd Cymru gytuno ar yr arian i sicrhau bod y cynllun yn parhau ac felly daeth i ben ym mis Medi 2005.
44. Erbyn hyn, mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru wedi dychwelyd i'r ymagwedd hwn. Dywedodd Alan Murray wrth y Pwyllgor fod ymarferwyr arbenigol yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd a fydd yn canolbwyntio ar ddatrys achosion gartref³². Bydd yr arbenigwyr hyn yn cael eu cyflogi i ddechrau ar raddfa is na'r uwch ymarferydd parafeddygol ond efallai y bydd cyfle iddynt ddatblygu ymhellach. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a Chomisiwn Iechyd Cymru, er iddynt weld buddiannau cynllun o'r fath yn 2004, wedi methu'r cyfle i ddatblygu'r model gofal newydd hwn, gan beri oedi am 5 mlynedd o ran y cynnydd yn y maes hwn.
45. Mae cynllun brysbennu newydd ar waith ar hyn o bryd yn ystafell reoli'r gwasanaeth ambiwlans sydd wedi gweld brysbennu mwy deallus yn arwain at ostyngiad o ddwy ran o dair yn nifer y galwadau categori C sy'n cael eu cyfeirio'n ôl i ambiwlansys 999. Mae'r cynllun hwn, fel y cynllun uwch ymarferwyr parafeddygol, wedi gwneud gwahaniaeth dramatig i'r nifer o alwadau lle mae angen mynd i'r ysbyty neu angen ymateb gan ambiwlans 999. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun brysbennu o dan arweiniad nyrsys wedi cael ei sefydlu ar sail amser llawn oherwydd diffyg cyllid.³³
46. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pob ymdrech yn cael ei gwneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Comisiwn Iechyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru i yrru cynlluniau fel y cynllun ymarferwyr arbenigol a'r cynllun brysbennu dan arweiniad nyrsys ymlaen. Bydd cynlluniau o'r fath yn mynd rhan o'r ffordd tuag at foderneiddio'r ddarpariaeth gofal heb ei drefnu a dylent wella'r gofal i gleifion a darparu arbedion effeithlonrwydd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.**

Trosglwyddiadau

47. Mae trosglwyddiad yn digwydd pan fydd criwiau ambiwlans yn cyrraedd adran achosion brys ysbyty ac yn trosglwyddo gofal y claf i staff yr ysbyty. Mae'r cyfnod trosglwyddo yn dechrau pan fydd

³¹ Nodyn gan Paul Williams ar y Cynllun Ymarferwyr Parafeddygol Uwch paragraff 18

³² Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [206]

³³ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [203]

criwiau ambiwlans yn cyrraedd yr ysbyty ac yn cofnodi eu bod wedi cyrraedd ar y terfynellau data yn yr adran achosion brys. Mae'r criwiau'n aros gyda'r claf wedyn nes gallant ei drosglwyddo'n llafar i staff yr ysbyty a rhoi cofnod ysgrifenedig y claf iddynt. Bydd staff yr ysbyty wedyn yn cwblhau'r broses drosglwyddo drwy gofnodi'r trosglwyddiad ar y terfynellau data. Mae criw'r ambiwlans wedyn yn glanhau ac ailgyflenwi eu hambiwllans cyn rhoi gwybod i ystafell reoli'r gwasanaeth ambiwlans ei fod ar gael i ateb galwad arall.

48. Yr amser targed er mwyn trosglwyddo claf yw dim hwy na 15 munud. Caniateir 5 munud arall i lanhau ac ailgyflenwi'r ambiwlans. Caniateir 20 munud i gyd felly cyn y dylai'r ambiwlans fod yn barod eto.
49. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Gofal Heb ei Drefnu – Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai', yn amlygu bod oedi wrth drosglwyddo cleifion wedi golygu, yn 2008, fod criwiau ambiwlans wedi colli bron i 30,000 o oriau mewn adrannau achosion brys y tu hwnt i'r 20 munud o amser troi rownd a dargedir.³⁴
50. Golygai'r oedi bod cleifion yn cael eu cadw i ddisgwyl naill ai mewn ambiwlansys y tu allan i'r ysbyty neu yng nghoridorau'r adran achosion brys. Yn ystod yr amser hwnnw, roedd y cleifion yn dal yng ngofal y criwiau ambiwlans.
51. Gall oedi hir gael effaith niweidiol iawn. Tanseilir y gofal i gleifion oherwydd, fel y dywedodd yr Athro Woollard wrth y Pwyllgor, *Mae'r oedi cyn trosglwyddo yn arwyddocaol yn glinigol*³⁵ a chyhyd ag y mae'r parafeddygon yn disgwyl gydag un claf mewn coridor ysbyty, nid ydynt ar gael i helpu claf arall sydd wedi galw 999 am help.
52. Dywedodd yr Athro Woollard wrth y Pwyllgor hefyd fod criwiau ambiwlans sy'n darparu gofal estynedig i gleifion o fewn ysbyty yn *ymgymryd â rôl nad ydynt wedi cael eu hyfforddi ar ei chyfer*³⁶. Caiff parafeddygon eu hyfforddi i roi gofal brys i gleifion yn y gymuned. Nid ydynt wedi cael eu hyfforddi i ofalu am gleifion dros gyfnod hir o amser mewn ysbyty lle mae'r cyfarpar yn anghyfarwydd ac y gallai cyflwr y cleifion newid, gan newid y gofal y mae ei angen arnynt felly. Mae cyfyngiadau hefyd ar y cyffuriau y caiff parafeddygon eu gweinyddu ac mae gofalu am glaf sydd mewn poen er na allant liniaru ei ddiodefaint yn gallu cael effaith seicolegol ar y staff ambiwlans yn ogystal ag effaith negyddol amlwg ar y gofal i gleifion.

Terfynellau data

53. Er mwyn monitro maint yr oedi wrth drosglwyddo gofal, cafodd terfynellau data eu gosod ym mhob adran achosion brys yn barod i'w defnyddio ym mis Medi 2008. Fodd bynnag, oherwydd problemau

³⁴ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gofal Heb ei Drefnu: Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai*, Ebrill 2009, paragraff 10

³⁵ Cofnod y Trafodion AC(3)-08-09 [110]

³⁶ Cofnod y Trafodion AC(3)-08-09 [12]

technegol a gafwyd ym mis Tachwedd, nid oedd y terfynellau data yn cael eu defnyddio'n llawn tan fis Rhagfyr 2008. Mae'r terfynellau data yn cynnwys sgrin sensitif i gyffyrddiad sy'n cofnodi amser cyrraedd criwiau ambiwlans sy'n disgwyl i drosglwyddo claf ynghyd â'r amser y caiff y trosglwyddiad ei gwblhau. Mae'r sgriniau hefyd yn rhoi manylion ambiwlansys sydd ar eu ffordd i adrannau achosion brys.

54. Dywed adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod *rhai aelodau staff yn amharod i ddefnyddio'r sgriniau*³⁷ Cytunai'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor â'r sylw hwnnw. Dywedodd Ms Rees wrth y Pwyllgor, *pan fydd gan nyrs glaf ar droli yn flaenoriaeth, nid yw'r sgrin yn beth pwysig iawn*³⁸ a dywedodd Ms Donnelly wrth y Pwyllgor mai'r *claf sy'n dod gyntaf a'r gwaith papur yn ail.*³⁹
55. Teimlai Ms Palmer fod yr amharodrwydd i ddefnyddio'r terfynellau data yn deillio'n rhannol o *ddyluniad y terfynellau a'r ffordd y dyluniwyd y drefn casglu data. Ni chafodd ei dylunio mewn gwirionedd gyda'r defnyddwyr mewn golwg – na'r gwasanaeth i ryw raddau.*⁴⁰ Eglurodd Mr Murray fod yn *rheid i'r sgriniau gael eu dylunio mewn ffordd a fyddai'n rhyngweithio'n iawn â'n system anfon drwy gymorth cyfrifiadur, felly nid oedd llawer o ddewis o ran sut i'w dylunio ac yr oedd cyfyngiadau.*⁴¹
56. Dywedodd Ms Palmer wrth y Pwyllgor y gallai'r feddalwedd a osodwyd ar y terfynellau data fod yn broblemus a bod 26 y cant o'r data a gasglwyd yn ystod sifft ddiweddar yn anghywir⁴². Bu adroddiadau am 'rith swyddi'⁴³, sy'n dangos bod ambiwlansys yn disgwyl y tu allan i un ysbyty pan eu bod mewn gwirionedd y tu allan i un arall, ac am achlysuron lle mae mwy nag un ambiwlans wedi cyrraedd lleoliad lle cafwyd digwyddiad ond dim ond un claf a hebryngwyd i'r ysbyty. Ar yr achlysuron hynny, neu pan nad yw criwiau ambiwlans wedi 'clicio' i ddweud eu bod wedi cyrraedd, nid yw'r feddalwedd yn caniatáu i nyrsys 'gwblhau' y trosglwyddiad ar y sgrin.
57. Awgrymodd yr Athro Woollard mai'r *unig ffordd ddibynadwy o gasglu data...yw cael system awtomataidd. Os oes angen ymyrraeth ddynol mewn amgylchedd lle mae pobl o dan bwysau mawr, yn anochel ni fydd yn fanwl gywir a bydd yn methu, oherwydd bydd sylw'r parafeddygon a'r nyrsys yn cael ei hoelio ar y claf, ac nid ar damaid o galedwedd.*⁴⁴
58. Dywedodd Ms Rees wrth y Pwyllgor fod y *system cofnodi [amseroedd trosglwyddo] â llaw yn dangos lefel wahanol o*

³⁷ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gofal Heb ei Drefnu: Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai*, Ebrill 2009, paragraff 15

³⁸ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [59]

³⁹ Cofnod y Trafodion AC(3)-08-09 [104]

⁴⁰ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [55]

⁴¹ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [256]

⁴² Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [115]

⁴³ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [119]

⁴⁴ Cofnod y Trafodion AC(3)-08-09 [112]

berfformiad o'i chymharu â'r sgrin yn ei phrofiad hi. Mae'n rhoi gwell adlewyrchiad o'r trosglwyddiad 15 munud, sef y tamaid pwysig, sy'n golygu gofalu am y claf o fewn 15 munud, yn hytrach na chael yr amser i bwysu'r sgrin⁴⁵.

59. Er bod monitro perfformiad yn gam cyntaf tuag at ei wella, nid yw'r Pwyllgor yn argyhoeddedig fod y terfynellau data yn addas i'w pwrpas. Mae'r gofyniad ar i staff dynnu eu sylw oddi wrth ofalu am gleifion er mwyn mewnbynnu data â llaw ar derfynellau sydd ym marn y staff wedi cael eu dylunio'n wael ac nad ydynt yn ddibynadwy yn ymddangos yn ddefnydd gwael o amser staff. **O ystyried bod 'gwell adlewyrchiad' o'r amseroedd trosglwyddo yn cael ei gofnodi mewn nodiadau clinigol, mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i edrych eto ar fater casglu data mewn adrannau achosion brys ac ystyried ffyrdd amgen o fesur perfformiad, megis defnyddio samplau o ddata a gesglir mewn nodiadau clinigol. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r baich ar staff mewn sefyllfa lle maent eisoes o dan bwysau mawr.**

Targedau trosglwyddo

60. Dywedodd Ms Rees wrth y Pwyllgor mai'r gofal y maent yn ei roi i'r cleifion a beth sy'n digwydd i'r cleifion hynny sydd bwysicaf i'r staff. *Nid ydynt yn cael eu gyrru gan y targed yn yr ystyr hwnnw; ni fyddant yn gweld cleifion yn ôl pwy sydd wedi bod yn aros hwyaf ac a allai felly fethu targed, ond yn ôl pwy sy'n fwyaf sâl.*⁴⁶
61. Adlewyrchwyd y teimlad hwn gan lawer o'r tystion a roddodd dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor. Yn wir, dywedodd Ms Palmer wrth y Pwyllgor, *Mewn rhai ffyrdd, mae'r targed 15 munud i ambiwlansys wedi tynnu'r sylw oddi wrth y claf.*⁴⁷ Eglurodd fod *penderfynu pa glaf ddylai gael gofal fel blaenoriaeth yn benderfyniad anodd iawn i unrhyw nyrs ei wneud.*⁴⁸
62. Dywedodd Mr Falcus, *Fy unig feirniadaeth fechan o darged 100 y cant yw, os methwch chi ef o un claf, yr ydych wedi'i fethu, ond gyda tharged o 95 y cant, gallwch fethu'r nod lle mae hynny'n briodol yn glinigol ac nid ydych yn gwneud penderfyniadau clinigol amhriodol ar sail y targed.*⁴⁹
63. Byddai'r Pwyllgor yn bryderus o glywed am unrhyw achosion lle'r oedd yr angen i gyrraedd targedau wedi cael ei ystyried yn fwy pwysig na barn glinigol am anghenion y claf. Bwriadwyd y targedau trosglwyddo fel ffordd o wella profiad cleifion a rhyddhau parafeddygon yn gyflym i'w galluogi i ymateb i alwadau 999 eraill. Fodd bynnag, y claf ddylai fod wrth galon y broses, nid y targed.

⁴⁵ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [59]

⁴⁶ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [22-23]

⁴⁷ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [13]

⁴⁸ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [20]

⁴⁹ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [93]

64. Dywedodd Ms Rees, *Rydym yn tueddu i beidio â siarad am y targedau, ond am y materion diogelwch ar y llawr a'r hyn sydd orau i'r claf – bydd y targedau'n gofalu am eu hunain os gwnawn ni hynny'n iawn.*⁵⁰
65. Mae'r criwiau ambiwlans a'r staff ysbyty yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn sydd orau i'r claf. Wrth sôn am drosglwyddiadau, mae'n well i'r claf gael ei drosglwyddo'n gyflym ac yn effeithlon i staff yr ysbyty. Mae hyn yn sicrhau bod y claf yn yr ysbyty yn cael gofal priodol a bod y claf yn y gymuned sy'n disgwyl i ambiwlans ymateb yn cael yr ymateb hwnnw'n gyflym. Nid agweddau sydd i gyfrif am y prif rwystrau rhag trosglwyddo'n gyflym ac ni ellir eu goresgyn drwy bennu targedau. Mae'r rhwystrau rhag trosglwyddo'n gyflym ar ffurf materion capasiti, y patrymau cyrchu at wasanaethau a'r ffordd y rheolir gwelyau ar draws holl gyfundrefn y GIG.⁵¹ **Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn tynnu'r gofyniad hwn i ganolbwyntio ar gydymffurfio â thargedau oddi ar staff rheng flaen, gan roi'r cyfrifoldeb yn lle hynny i unigolyn a enwir yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys ac mewn mannau eraill o fewn y system gofal iechyd ehangach. Rhaid cynorthwyo staff i ddarparu'r hyn sydd orau i'r claf ar sail anghenion clinigol, tra bod y rheolwyr yn blaenoriaethu'r materion ehangach sy'n rhwystro trosglwyddiadau cyflym.**

Gwneud y defnydd gorau o adnoddau

66. Dywedodd Ms Gardiner wrth y Pwyllgor, *Bu diwylliant ers tro byd sy'n derbyn y gall cleifion ddisgwyl. Mae angen i hynny newid*⁵². Er bod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y llif cleifion mor effeithlon â phosibl, ar adegau mae oedi mewn adrannau achosion brys wedi cael ei weld fel rhywbeth anochel. Nid yw cleifion yn cyrraedd adrannau achosion brys drwy lif cyson ac mae adegau pan all adrannau achosion brys weld nifer fawr o gleifion yn cyrraedd ar unwaith. Bydd y cleifion hynny'n wynebu oedi, nid o reidrwydd oherwydd unrhyw ddiffyg wrth gynllunio adnoddau ond oherwydd natur gofal brys heb ei drefnu.
67. Mae gan ysbytai gynlluniau arbennig ar gyfer adegau o'r fath i ymateb i alw cynyddol yn gyflym. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i alluogi ysbytai i ymateb i bwysau cynyddol ac i leihau effaith y pwysau hynny ar y claf.
68. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn synnu clywed, pan fydd ysbyty o dan bwysau o'r fath a'i fod wedi datgan bod ei statws ar 'goch', a'i fod felly yn gweithredu i'w lawn gapasiti, fod ambiwlansys yn dal i fynd â chleifion i'r ysbyty hwnnw a'u bod yn anochel wedyn yn gorfod

⁵⁰ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [15]

⁵¹ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gofal Heb ei Drefnu: Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai*, Ebrill 2009, paragraff 22

⁵² Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [103]

disgwyl. Awgrymodd Tina Donnelly y gallai gweithio gwell drwy bartneriaeth yn y system reoli beri i gleifion cael eu cludo i rywle arall i ysbyty ar statws 'gwyrdd'.⁵³

69. Cyfeiriodd Mr Murray at system rheoli capasiti a ddefnyddir yn Surrey a oedd yn llwyddiannus. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o greu system rheoli capasiti glir a thryloyw sy'n cyfeirio cleifion brys, pan fydd yn saff yn glinigol i wneud hynny, i'r ysbyty sydd yn y sefyllfa orau i ddelio â'r claf hwnnw yn hytrach nag i'r ysbyty agosaf sydd efallai yn gweithredu i'w lawn gapasiti.**

Swyddogion ambiwlans

70. Yn ogystal â gwella'r gofal i gleifion, bwriadwyd y targed trosglwyddo i ryddhau criwiau ambiwlans o'r ysbyty cyn gynted â phosibl fel eu bod yn gallu ymateb i alwadau 999 eraill. Yn ystod cyfnodau o bwysau neilltuol, mae swyddogion ambiwlans wedi cael eu defnyddio i dderbyn cleifion oddi wrth griwiau ambiwlans. Bydd y swyddog ambiwlans yn derbyn cleifion oddi wrth sawl criw ambiwlans yr un pryd, gan ryddhau'r criwiau hynny i fynd i helpu cleifion eraill yn y gymuned. Bydd y swyddog ambiwlans wedyn yn parhau i ddarparu gofal i'r cleifion a adwyd yn ei ofal hyd nes y gellir eu trosglwyddo i staff yr ysbyty.
71. Mae gan y Pwyllgor sawl pryder ynglŷn â'r arfer hwn. Bydd cleifion a drosglwyddir i swyddogion ambiwlans yn gorfod disgwyl mewn coridorau i gael eu trosglwyddo i staff yr ysbyty. Mae i hyn oblygiadau difrifol o ran preifatrwydd ac urddas y claf ac mae hefyd yn creu risg glinigol. Mae trosglwyddiad dau gam oddi wrth y parafeddyg i'r swyddog ambiwlans ac yna oddi wrth y swyddog ambiwlans i staff yr ysbyty yn creu cyfle annerbyniol i wybodaeth hanfodol fynd ar goll. Gallai hyn arwain at gamgymeriadau difrifol o ran asesu anghenion clinigol claf.
72. Disgrifiodd yr Athro Woollard barafeddygon sy'n gweithio mewn amgylchedd ysbyty fel *pysgod allan o ddŵr*.⁵⁴ Mae eu hyfforddiant yn eu paratoi i roi gofal brys i bobl yn y gymuned. Mae eu lleoli mewn ysbyty i ofalu am gleifion dros gyfnod o amser yn rhoi pwysau ar y parafeddygon ac nid yw'n darparu'r gofal gorau i'r claf.
73. Yn aml, mae'r swyddog ambiwlans y rhoddir iddo'r dasg o ofalu am gleifion yn rheolwr, sy'n creu pwysau pellach o ran y capasiti rheoli. Fel y noda adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar drosglwyddo cleifion, 'tra bydd uwch reolwyr yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn gweithio fel adnodd gweithredol ychwanegol mewn adrannau

⁵³ Cofnod y Trafodion AC(3)-08-09 [135]

⁵⁴ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [86]

achosion brys, ni allant weithio ar atebion cynaliadwy ar draws y system gyfan a allai efallai atal oedi dianghenraid yn y tymor hwy.⁵⁵

74. Ar ben hynny, mae'r arfer yn niweidiol i enw da'r ysbyty. Fel y tynnwyd sylw'r Pwyllgor ato gan Ms Donnelly, *mae cyfran uchel o'r cleifion sy'n eistedd ac yn disgwyl mewn adrannau damweiniau ac achosion brys...yn meddwl tybed sut ofal clinigol sy'n cael ei ddarparu pan fyddant yn gweld cleifion, tri ochr yn ochr, mewn coridor ysbyty yn disgwyl i gael eu gweld.*⁵⁶
75. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yr arfer o drosglwyddo gofal i swyddog ambiwlans yn mynd rhan o'r ffordd tuag at liniaru'r pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans yn ystod adegau o bwysau mawr. Fodd bynnag, mae'n ystyried yr arfer yn ateb anfoddhaol. Dylai'r effaith andwyol a gaiff yr arfer ar brofiad y claf, ar farn pobl am y ddarpariaeth gofal heb ei drefnu ac ar y parafeddygon eu hunain fod yn ddigon o symbyliad i ganfod ateb amgen i'r broblem hon.
76. **Ymhellach, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru egluro a oedd yn rhagweld y byddai'r targed trosglwyddo yn gweithio drwy drosglwyddo cleifion i swyddog ambiwlans neu ai'r disgwyliad oedd y byddai cleifion yn cael eu rhyddhau i gael eu gofalu gan dîm clinigol yr adran damweiniau ac achosion brys. Er y bydd defnyddio swyddogion ambiwlans yn rhyddhau'r criwiau ambiwlans i ymateb i alwadau eraill, mae'r gofal a roddir i gleifion ar ei orau yn ddim gwaeth na'r gofal a roddir gan griwiau ambiwlans yn ystod achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Ar y gwaethaf, mae'r arfer hwn yn peryglu cleifion gan fod un swyddog yn derbyn cleifion gan sawl criw ambiwlans ar yr un pryd.**
77. Dylai argymhellion mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn fynd rhan o'r ffordd tuag at leihau'r angen i ddefnyddio swyddogion ambiwlans yn y ffordd hon, ond mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai bod adegau lle y gallai swyddog ambiwlans leddfu'r sefyllfa ar gyfer criwiau ambiwlans nes y gwneir gwelliannau cynaliadwy drwy'r system darparu gofal iechyd. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell felly bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod y partneriaid i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y rhoddir y cymorth gorau posibl i swyddogion ambiwlans pan fyddant yn gofalu am gleifion yn y ffordd hon. Dylid ystyried creu ardal briodol lle gall parafeddygon sy'n gofalu am gleifion sy'n disgwyl i gael eu trosglwyddo gyrchu'n hwylus at gyfarpar brys ac ocsigen. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddarparu staff nyrsio mewn ardal o'r fath ar adegau pryd y rhagwelir lefel uchel o alw. Byddai hyn yn galluogi'r ysbyty i gysylltu â'r gwasanaeth ambiwlans yn fwy effeithiol a byddai'n darparu ar gyfer brysbennu cleifion er mwyn blaenoriaethu eu trosglwyddiadau ar sail glinigol.**

⁵⁵ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gofal Heb ei Drefnu: Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai*, Ebrill 2009, paragraff 2.31

⁵⁶ Cofnod y Trafodion AC(3)-08-09 [94]

Ailgyflenwi

78. Ar ôl cwblhau'r broses drosglwyddo, mae 5 munud wedi'u dyrannu i griwiau ambiwlans i lanhau ac ailgyflenwi eu hambiwllansys. Dywed adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar drosglwyddo cleifion fod rhai criwiau'n teimlo bod y targed yn afrealistig a 'lle mae angen cyffuriau yn lle'r rhai a ddefnyddiwyd, eu bod weithiau'n gorfod aros i ddisgwyl nes bydd nyrs ar gael a all agor storfa feddyginiaethau'r adran achosion brys'.⁵⁷
79. Dywed adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd fod oedi'n digwydd pan fydd criwiau'n gorfod cerdded o amgylch yr adran achosion brys i chwilio am fyrddau cefn, fframiau neu ddillad gwely ac mewn rhai achosion byddant 'yn mynd yn ôl ar y ffordd heb y darnau hyn o gyfarpar'.⁵⁸
80. Ni ddylai criwiau ambiwlans orfod ateb galwadau heb y cyfarpar y mae ei angen arnynt oherwydd dryswch ynglŷn â lleoliad cyflenwadau mewn adrannau ysbyty. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pob adran damweiniau ac achosion brys yn creu ardal benodol lle mae meddyginiaethau, dillad gwely, dillad diogelu a chyfarpar arall sy'n hanfodol i griwiau ambiwlans yn cael eu storio er mwyn dileu cyfnodau hir o oedi wrth ailgyflenwi. Dylai'r ardaloedd hyn fod yn gwbl hygyrch i griwiau ambiwlans fel nad yw sylw staff yr ysbyty yn cael ei dynnu oddi ar ofalu am gleifion.**

Rhannu'r arferion gorau

81. Ledled y GIG yng Nghymru a'r DU, mae gwaith ar y gweill i wella'r ddarpariaeth gofal heb ei drefnu. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod na fydd un 'ateb sy'n gweddu i bawb' efallai o ran y sialensiau sy'n bodoli, bydd gwersi i'w dysgu drwy lwyddiannau a methiannau cyrff eraill yn y maes hwn.
82. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod rhaglen gydweithredol y gwasanaethau brys yn ffordd dda iawn o rannu arferion gorau ond nad yw'n weithredol mwyach.⁵⁹ Mae'r Pwyllgor o'r farn fod fforwm cenedlaethol fel hwn, lle gellir rhannu'r arferion gorau a dysgu oddi wrth ymdrechion llai llwyddiannus, yn dyngedfennol ar adeg o gymaint o bwysau a newid.
83. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu fforwm cenedlaethol lle gall staff o holl ymddiriedolaethau'r GIG rannu arferion da a gyrru newidiadau positif ymlaen a dysgu drwy brofiadau cyrff eraill.**

⁵⁷ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gofal Heb ei Drefnu: Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai*, Ebrill 2009, paragraff 2.36

⁵⁸ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gofal Heb ei Drefnu: Trosglwyddo cleifion o fewn adrannau achosion brys ysbytai*, Ebrill 2009, paragraff 2.36

⁵⁹ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [131]

Ymdrin ag amrywiadau daearyddol

84. Ym mis Mehefin 2008, dywedodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, *Tra mae'r perfformiad wedi gwella ym mhob rhanbarth er mis Rhagfyr 2006, mae'r perfformiad wedi bod yn gostwng yn gyson yn rhanbarth y De-ddwyrain er mis Ebrill 2007, a bu gostyngiad hefyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Er mis Chwefror 2007, bu tuedd ar i fyny yng Ngogledd Cymru, a oedd eisoes â'r lefelau cydymffurfio uchaf â'r safon wyth munud.*⁶⁰
85. Ym mis Mawrth 2009, adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol fod *amrywiadau [perfformiad] sylweddol yn parhau gyda phroblemau arbennig o ddifrifol mewn rhai ardaloedd* er bod y ffigurau am fis Ionawr 2009 yn dangos bod *yr amrywiadau mewn perfformiad rhwng y gwahanol ardaloedd wedi gostwng yn sylweddol gyda gwell perfformiad ym mhob ardal ond dwy.*⁶¹
86. Ar 18 Mehefin, dywedodd Mr Falcus wrth y Pwyllgor bod gan Ysbyty Maelor Wrecsam *uned dderbyn feddygol ac uned dderbyn lawfeddygol gydag oddeutu 40 gwely*⁶². Dywedodd Ms Gardener wrth y Pwyllgor bod tua 26 o droliâu yn yr uned asesu lawfeddygol yn Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd a 22 arall yn yr uned asesu feddygol⁶³. O ystyried bod gwahaniaeth mawr rhwng maint y boblogaeth y mae'r ysbytai unigol yn darparu ar eu cyfer, mae'n ymddangos yn afresymegol bod y ddwy adran mor debyg o ran maint. Yn wir, mae'r tebygrwydd o ran maint y ddwy adran yn awgrymu y dylid rhoi blaenoriaeth i gynnal asesiad o'r anghenion capasiti ledled y GIG yng Nghymru.
87. O ystyried y gwahaniaethau daearyddol a demograffig rhwng gogledd, canolbarth a de Cymru, nid yw'n syndod bod y sialensiau wrth ddarparu gofal brys yn amrywio rhwng ardaloedd. Fodd bynnag, mae angen i anghenion a sialensiau gwahanol pob ardal o Gymru gael eu deall yn glir er mwyn dileu'r loteri cod post sy'n gysylltiedig â gofal heb ei drefnu. Mae perygl i'r ystyriaethau capasiti mawr yn gysylltiedig ag ysbytai canol dinas trydyddol mawr gael eu gweld fel esgus am berfformiad gwael mewn rhai rhanbarthau. Ar Fehefin 18, dywedodd Paul Williams wrth y Pwyllgor Archwilio, *efallai mai'r gwir syml yw nad oes digon o sylw wedi cael ei roi i'r ffaith fod angen ailwampio cynllun adrannau damweiniau ac achosion brys yn sylfaenol.*⁶⁴
88. Dywedodd Mr Williams wrth y Pwyllgor hefyd mai'r cwestiwn i mi yw a *yw'r comisiynwyr a'r darparwyr yn sicrhau bod capasiti ac arbenigedd*

⁶⁰ Swyddfa Archwilio Cymru, *Adolygiad Dilydol - Gwasanaethau Ambiwllans yng Nghymru*, Mehefin 2008, paragraff 1.17

⁶¹ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gwasanaethau Ambiwllans yng Nghymru – gwybodaeth bellach i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Mawrth 2009, paragraffau 1.6 -1.7

⁶² Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [44]

⁶³ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [45]

⁶⁴ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [242]

*digonol yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys i sicrhau trosglwyddiadau cyflym.*⁶⁵

- 89. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gwaith yn cael ei wneud i sefydlu a oes capasiti digonol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys i sicrhau trosglwyddiadau cyflym. Dylai gwaith brys gael ei wneud i sicrhau, lle mae hynny'n bosibl, fod y capasiti ym mhob ysbyty yn briodol i'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu.**
- 90. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn rhoi eu cefnogaeth lawn i achosion busnes i ailgynllunio'r adrannau achosion brys hynny y mae mwyaf o angen eu moderneiddio.**

Lefelau staffio mewn adrannau achosion brys

91. Dywedodd Mr Falcus, *Dros y blynyddoedd diwethaf, yr ydym wedi canfod nad y capasiti ffisegol yw'r allwedd i hyn o reidrwydd – mae a wnelo hefyd â safon a chymhwysedd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r staff yn eich adrannau, a pha mor uchel yw'r lefel y maent yn gweithredu arni. Po fwyaf o uwch staff sydd gennych wrth ddrws y ffrynt, gorau oll y gallwch ddelio â'r galw sy'n dod drwyddo.*⁶⁶
92. Dywedodd Ms Gardner wrth y Pwyllgor, *Mae coleg brenhinol y ffisigwyr achosion brys wedi creu canllawiau'n ddiweddar ar yr union nifer o staff meddygol yn yr adran ac, yn anffodus, nid ydym yn cyrraedd y lefel honno.*⁶⁷ Er bod y Pwyllgor yn cydnabod nad yw Cymru'n imiwn i'r prinder staff sy'n effeithio ar y DU, ac yn nodi'r ddibyniaeth ar staff o wledydd eraill, dylid cydnabod na all targedau na chymhellion, waeth faint ohonynt sydd gennym, wneud iawn am ddiffyg staff. Bydd uwch staff sy'n gallu trin a rhyddhau cleifion yn lliniaru pwysau ar rannau eraill yr adran achosion brys yn yr un ffordd ag y bydd parafeddygon arbenigol sy'n gallu rhyddhau cleifion yn y fan a'r lle yn help i ryddhau capasiti yn y system.
- 93. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r prinder staff a, thrwy hynny, yn gwella capasiti a pherfformiad mewn adrannau achosion brys.**
- 94. Dylid hefyd ystyried adolygu'r strwythur staffio mewn adrannau achosion brys er mwyn darparu lefel uwch o uwch staff. Dylai'r aelodau staff hyn allu trin neu ryddhau neu gyfeirio cleifion yn annibynnol, gan ryddhau capasiti mewn mannau eraill yn yr adran drwy hynny.**

⁶⁵ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [265]

⁶⁶ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [44]

⁶⁷ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [46]

Profiad y staff

95. Dywedwyd wrth y Pwyllgor gan Dave Galligan fod *pawb yn y gwasanaeth ambiwlans...yn teimlo o dan bwysau'n barhaus, ni waeth beth yw eu gradd na'u lefel.*⁶⁸ Teimlai'r Athro Woollard *nad mater o forâl isel mohono – mae'n fater o iechyd meddwl gwael ymysg llawer o weithwyr ambiwlans.*⁶⁹
96. Mynegwyd pryderon fod bwlio yn *dod yn rhan o'r diwylliant bron mewn rhai ardaloedd*⁷⁰ o'r gwasanaeth ambiwlans a bod y *staff yn teimlo'n ddi-rym*⁷¹ pan fyddant yn delio â phwysau oedi wrth drosglwyddo cleifion. Mae darparu gofal meddygol brys i gleifion sydd weithiau'n sâl iawn yn waith anodd, llawn straen, ynddo'i hun. Mae'r straen ychwanegol a roddir ar staff drwy fwlio a rhoi pwysau ar staff i newid yr hyn nad oes ganddynt y grym i'w newid yn annerbyniol.
97. Mae gwaith ar y gweill yn awr yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru i weithredu mesurau newydd a argymhellwyd gan Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG. Mae siarter staff yn cael ei ddatblygu a fydd yn ei gwneud yn glir sut berthynas ddylai fodoli rhwng y rheolwr a'r staff a bydd yn nodi hawliau a chyfrifoldebau'r staff. Gwahoddwyd y staff i gyfrannu i'r gwaith o lunio'r siarter hwnnw a dywedodd Alan Murray wrth y Pwyllgor eu bod wedi cael *cannoedd o ymatebion gan staff a oedd am fod yn rhan o'r broses.*⁷² Mae'n galonogol fod y staff mor awyddus i gyfrannu i'r broses a ddylai fynd ran o'r ffordd tuag at gael gwared ar fwlio yn yr ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn dal yn siomedig nad oes cynnydd cyflym wedi cael ei wneud yn y maes hwn o ystyried bod y diwylliant bwlio wedi cael ei gydnabod yn adroddiad 2006 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru⁷³.
98. Mae'r ffaith bod cynifer o'r staff yn awyddus i gyfrannu tuag at ddatblygu'r siarter yn dangos y lefel o gefnogaeth i newid o fewn yr ymddiriedolaeth. Ym marn y Pwyllgor, mae'n annerbyniol bod staff Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn parhau i gael problemau er i'r diwylliant o fwlio gael ei nodi mor gynnar â 2006. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yrru'r newidiadau angenrheidiol ymlaen i gael gwared ar fwlio yn yr ymddiriedolaeth ac i sicrhau bod staff ymroddgar, sy'n gweithio'n galed, yn cael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf. Mae'r Pwyllgor yn argymhell hefyd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu adroddiad diweddar i'r Pwyllgor cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ganlyniadau'r arolwg staff.**

⁶⁸ Cofnod y Trafodion AC(3)-08-09 [127]

⁶⁹ Cofnod y Trafodion AC(3)-08-09 [53]

⁷⁰ Cofnod y Trafodion AC(3)-08-09 [45]

⁷¹ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [19]

⁷² Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [222]

⁷³ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gwasanaethau Ambiwllans yng Nghymru*, Rhagfyr 2006, paragraff 2.208

Sefyllfa Ariannol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

99. Daw'r cyllid i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru oddi wrth y corff comisiynu, Comisiwn Iechyd Cymru. Seilir y lefel o gyllid ar yr hyn y mae ar y gwasanaeth ei angen i ddarparu'r gwasanaeth, a chaiff ei gostwng wedyn yn ôl y swm o arbedion effeithlonrwydd y mae gofyn eu gwneud. Gwneir rhai arbedion drwy symleiddio prosesau, gwneir eraill drwy newid y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae trafodaethau ynglŷn â lefel y cyllid sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru yn mynd rhagddynt rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Comisiwn Iechyd ond nid ydynt wedi'u cwblhau eto.
100. Yn ychwanegol at y cyllid yr oedd yn ei dderbyn yn barod, amcangyfrifodd yr ymddiriedolaeth y byddai angen £9 miliwn ychwanegol o gyllid arni yn 2008-09 i'w galluogi i gadw at y targedau amseroedd ymateb newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2008. Fodd bynnag, nid yw'r ymddiriedolaeth a Chomisiwn Gofal Iechyd Cymru wedi gallu cysoni barn y naill ochr a'r llall o ran lefel y cyllid ychwanegol sy'n ofynnol i gyrraedd y targedau a chytunasant felly y dylai adolygiad effeithlonrwydd meincnodi gael ei gynnal yn annibynnol fel sail i drafodaethau yn y dyfodol. Yr oedd disgwyl i'r adolygiad gyflwyno adroddiad ganol mis Mawrth⁷⁴ ond erbyn hyn disgwylir iddo gyhoeddi adroddiad erbyn diwedd mis Mehefin⁷⁵. Yn y cyfamser, nid oes gan y gwasanaeth ambiwlans eglurder ynglŷn â'i sefyllfa ariannol.⁷⁶
101. Dywedodd Dave Galligan wrth y Pwyllgor fod y diffyg eglurder ynglŷn â sefyllfa ariannol yr ymddiriedolaeth wedi arwain at *anghrediniaeth ymysg y staff*.⁷⁷ Roedd y gostyngiad diweddar yn nifer y staff rheng flaen yn ymateb uniongyrchol i'r angen am arbedion effeithlonrwydd, er bod cyllid wedi cael ei ddarparu erbyn hyn i godi'r lefelau staffio yn ôl i fyny. Nid yw'n syndod, felly, fod y staff yn pryderu ynglŷn â sefyllfa ariannol yr ymddiriedolaeth.
102. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r penderfyniad gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a Chomisiwn Iechyd Cymru i gael eu harwain gan adolygiad effeithlonrwydd annibynnol. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu gwybodaeth ddiweddar i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r adroddiad hwnnw a lefel y cyllid y cytunir arni yn sgil hynny rhwng yr ymddiriedolaeth a'r corff comisiynu cyn gynted ag y bydd y penderfyniadau hynny wedi cael eu gwneud.**

⁷⁴ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gwasanaethau Ambiwylans yng Nghymru – gwybodaeth bellach i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Mawr 2009, paragraff 1.34

⁷⁵ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [185]

⁷⁶ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [183]

⁷⁷ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [147]

Ad-drefnu'r GIG

103. Bydd yr ad-drefnu sydd ar fin digwydd yn y GIG yn gyfle i wneud newidiadau cadarnhaol iawn ar draws y system gofal yn ei chyfanrwydd. Dywedodd Paul Williams wrth y Pwyllgor ei fod, *am y tro cyntaf, yn gweld cynlluniau'n dod drwodd sydd nid yn unig yn nodi'r angen i fuddsoddi mewn ysbytai ond yn meddwl yn sylfaenol am y pecyn gofal heb ei drefnu yn ei gyfanrwydd, a sut y mae'n cymryd ei le o fewn meddygaeth gyffredinol a gofal yn y gymuned.*⁷⁸ Mae'r Pwyllgor yn siomedig mai dim ond yn awr y mae materion o'r fath yn cael eu hystyried, er gwaethaf y problemau sydd wedi bodoli ers amser maith mewn perthynas â'r ddarpariaeth gofal brys.
104. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella gofal heb ei drefnu yn y GIG ar ei newydd wedd. Mae newidiadau sydd wedi cael eu gwneud eisoes yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro o ganlyniad i'r ymrwymiad hwnnw wedi arwain at ostyngiad o 50 y cant yn yr oedi wrth drosglwyddo cleifion. **Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod cymorth llawn yn cael ei roi i rannu'r arferion da sydd wedi arwain at y gwelliant hwn mewn perfformiad.**
105. Onid eir i'r afael â materion yn ymwneud â chapasiti, patrymau cyrchu at wasanaethau a rheoli gwelyau ar draws holl gyfundrefn y GIG, mae'n amlwg y bydd y system gofal heb ei drefnu yn parhau i gael ei rhoi dan bwysau nes bydd bron iddi â methu. Er mwyn defnyddwyr a darparwyr y gwasanaeth, mae'n hanfodol edrych yn greadigol ar y system sydd ar waith ar hyn o bryd i alluogi'r staff i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf. **Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod y cyfle i foderneiddio gofal heb ei drefnu yn ystod yr ad-drefnu sydd ar fin digwydd yn y GIG yn cael ei wireddu'n llwyr ac y rhoddir y cymorth y mae ei angen arnynt i ymddiriedolaethau GIG i fynd i'r afael â'r problemau y maent yn eu hwynebu yn greadigol a chyda'i gilydd.**

⁷⁸ Cofnod y Trafodion AC(3)-09-09 [208]

Atodiadau

Cyfeiriwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer yr Atodiadau.